# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 3**

RHYDDHAD RHAG TRETH

**29 Defnyddio deunydd mewn gwaith adfer safle cymeradwy**

(1) Mae gwarediad trethadwy wedi ei ryddhau rhag treth os yw—

[F1(a) yn warediad deunydd—

(i) sy'n ddeunydd cymwys i gyd, neu

(ii) sy'n uwchbridd i gyd, a]

(b) yn rhan o waith adfer a gyflawnir yn unol â chymeradwyaeth a roddir gan ACC.

(2) Ni chaiff ACC gymeradwyo cyflawni gwaith adfer ar safle tirlenwi awdurdodedig onid yw—

(a) gweithredwr y safle yn gwneud cais ysgrifenedig i ACC am y gymeradwyaeth,

(b) y cais yn cael ei wneud cyn i'r gwaith adfer ddechrau, ac

(c) ACC wedi ei fodloni bod y gwaith yn ofynnol o dan un o amodau trwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle.

(3) Caiff cymeradwyaeth—

(a) ymwneud â'r holl waith a ddisgrifir yn y cais am y gymeradwyaeth neu ran ohono;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 29. (See end of Document for details)*

(b) ymwneud â gwaith a gyflawnwyd cyn i'r gymeradwyaeth gael ei rhoi neu a gyflawnir ar ôl hynny (neu'r ddau);

(c) bod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n gwneud rhoi adroddiadau i ACC ynglŷn â chyflawni'r gwaith yn ofynnol).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 29(1)(a) wedi ei amnewid (11.10.2018) gan Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/1057), rhlau. 1(2), **2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 29(1) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 29(2)(3) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 29.